# CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT

# DATGANIAD AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT Y BWRDD

Mae Coleg Gwent yn goleg croesawgar, amrywiol a chynhwysol. Rydym am i'n coleg fod yn amgylchedd cadarnhaol, lle rydym i gyd yn cadw meddwl agored a lle y mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u parchu. Rhywle lle y gall pawb fod yn chi eich hun a lle y gall pawb ffynnu.




## EIN HYMRWYMIADAU

**Beth rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei gyflawni**

Fel Bwrdd y Llywodraethwyr, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni gymryd yr awenau a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant trwy ddarparu goruchwyliaeth effeithiol, meithrin arferion cynhwysol a gosod fframwaith sydd yn denu, yn diogelu, yn cefnogi ac yn dathlu amrywiaeth. Mae'n rhaid i arferion cynhwysol gael eu gwreiddio ym mhopeth rydym yn ei wneud.

**Aelodaeth o'r Bwrdd**

Rydym yn cydnabod y gwerth o gael Llywodraethwyr sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein haelodau staff a'n myfyrwyr, yn ogystal â'r gymdeithas ehangach. Yn y cyd-destun hwn, mae amrywiaeth yn cyfeirio at y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â chefndiroedd economiadd-gymdeithasol gwahanol, sgiliau'r iaith Gymraeg, profiad bywyd, llwybrau gyrfa ac amrywiaeth o ran meddyliau. Mae angen y sgiliau cywir ar ein Bwrdd er mwyn cyflawni ein dyletswyddau wrth lywodraethu yn y coleg ond rydym hefyd yn gwybod bod gwneud penderfyniadau da, arweinyddiaeth effeithiol ac arloesedd wedi'u galluogi a'u gwella trwy groesawu profiadau a safbwyntiau gwahanol.

Ein hymrwymiad erbyn 2030 yw y bydd ein Bwrdd yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. I'r diben hwn, rydym yn anelu at:

- Gynnal rhaniad rhyw sy'n cynnwys cydbwysedd da o ddynion a menywod, yn ogystal ag aelodau anneuaidd neu drawsryweddol.
- Cael o leiaf 4 aelod sy'n siaradwyr Cymraeg (naill ai yn rhugl neu'n ddysgwyr lefel uwch).
- Adlewyrchu amrywiaeth ethnig ein cymunedau yn well a chael o leiaf 5 aelod o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnig.
- Cynyddu nifer y Llywodraethwyr o grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl anabl, y rheini o'r gymuned LDHTC+, ac unigolion o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a rhai sydd â phrofiadau bywyd gwahanol.

## Recriwtio i'r Bwrdd

- Bydd pob cais am benodiad i'r Bwrdd yn cael ei ystyried ar sail teilyngdod yn erbyn manyleb y person a'r sgiliau y mae eu hangen ar y Bwrdd ar yr adeg honno.
- Bydd y broses recriwtio ar gyfer aelodau Bwrdd yn adlewyrchu arfer gorau. Bydd yn agored ac yn dryloyw a chaiff cyfleodd i ymuno â'r Bwrdd eu rhannu gyda'r gynulleidfa ehangaf bosibl.
- Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu â mentrau/cynlluniau mentora a fydd yn cefnogi darpar Lywodraethwyr y dyfodol i ddatblygu sgiliau perthnasol.
- Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gall unigolion sydd â diddordeb mewn dod yn Llywodraethwr gael mwy o wybodaeth am y rôl trwy fynychu un neu fwy o gyfarfodydd ar sail arsyllwr.
- Yn ogystal â defnyddio gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau busnes a chymunedol ar-lein, bydd y Bwrdd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cymunedau gwahanol rydym yn eu gwasanaethu.
- Bydd y Bwrdd yn gweithio â chydweithwyr a sefydliadau eraill ar draws y sector i godi ymwybyddiaeth o rôl Llywodraethwyr y coleg.
- Ar gael eu penodi, caiff Mentor ei neilltuo i bob Llywodraethwr newydd i'w cefnogi yn eu rôl.

## Monitro ac Adolygu Parhaus

- Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn llofnodi bob blwyddyn i gadarnhau eu hymrwymiad i Werthoedd Craidd y coleg a'r ymagwedd gynhwysol a amlinellir yn Siarter Amrywiaeth Coleg Gwent.
- Bydd y Bwrdd yn cytuno ar Gynllun Gweithredu Amrywiaeth ac yn adolygu cynnydd yn ei erbyn yn rheolaidd.
- Bydd y Bwrdd yn cynnal adolyiad blynyddol o adroddiad sy'n crynhoi ei broffil amrywiaeth a'r gweithredoedd o ran gwella amrywiaeth ei aelodau.
- Caiff gwybodaeth am amrywiaeth y Bwrdd ei rhannu ar wefan y coleg.
- Caiff y Datganiad Amrywiaeth a Chynhwysiant y Bwrdd hwn ei adolygu'n flynyddol a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y coleg.

Arwyddwyd ar ran y Bwrdd

Coleg Gwent

**Sue Ball**
**Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr**

Cymeradwywyd: 7fed Gorffennaf 2026